❖ Ysbryd y Nadolig

Tôn: 'Wele Gwawriodd' (Trefniant Alun Davies)

Pan fydd ysbryd y Nadolig
Yn ymledu dros y tir,
Clywir clychau eto'n canu
Ac yn seinio neges glir
Am y geni yn y preseb
Draw yn ninas Bethlehem,
Mair yn suo'r Baban annwyl
Oedd â'r dwyfol yn ei drem.

Cofir am y llu angylion
Â Newyddion Da y nos
Yn ymweled â'r bugeiliaid
Wrth y gorlan ar y rhos;
Hwythau'n mynd at wyrth yr oesau
Yn y beudy yn y dref,
Cyn dychwelyd at y preiddiau
Â llawenydd yn eu llef.

Cofir am y seren ryfedd,
A'i goleuni'n arwain tri
O frenhinoedd at y Brenin
Sy'n rhoi hedd i'n daear ni;
Daethant ato ef â rhoddion,
Aur a thus a myrr yn rhad,
Yna troi ar hyd ffordd arall
I genhadu yn eu gwlad.

Mae yr ŵyl o hyd yn dangos
Y Goleuni gwir i'r byd,
Gan ein tywys o'r tywyllwch
At y Baban yn ei grud;
Yno ganwyd ein Gwaredwr
Yn ôl hen addewid Duw;
Rhoddwn iddo y gogoniant
Am ei ddod i'n plith i fyw.

D. J. Thomas